## Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
## Legislation, Justice and Constitution Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Busnes

14 Tachwedd 2025

Annwyl Lywydd

Adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau: cyhoeddi Biliau cyn eu cyflwyno

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Hydref 2025 yn gofyn am farn ar arfer diweddar Llywodraeth Cymru (fel y nodwyd yn y Pwyllgor Busnes ar 20 Mai 2025) o gyhoeddi fersiynau o Filiau cyn eu cyflwyno o Filiau i'w cyflwyno yn ystod Blwyddyn 5 o'r Chweched Senedd ar yr un pryd ag y cânt eu darparu i'r Llywydd at ddibenion gwneud penderfyniad ar gymhwysedd deddfwriaethol yn unol â Rheol Sefydlog 26.4 (fel arfer pedair wythnos cyn cyflwyno Bil).

O'n safbwynt ni, ac o ystyried bod ein rôl graffu yn fwy arbenigol ac felly nad yw fel arfer yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar faterion polisi, nid oedd cyhoeddi cynnar o fudd sylweddol i ni yn gyffredinol, er ein bod yn cydnabod y gallai fod wedi bod yn ddefnyddiol i bwyllgorau polisi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cael golwg gynnar ar y Biliau Cydgrynhoi Cynllunio wedi bod yn ddefnyddiol i swyddogion y Comisiwn dros yr haf o ystyried natur y broses gydgrynhoi. Fodd bynnag, y datrysiad gorau posibl bob amser yw gweithio oddi ar ddeddfwriaeth a gyflwynir yn ffurfiol ac mae'r pryderon ehangach a fynegwyd gennym yn ein llythyr i'r Pwyllgor Busnes ar 3 Gorffennaf 2025 ynghylch yr amserlen ar gyfer craffu ar y Biliau yn parhau.

Fodd bynnag, rydym am dynnu sylw at rai pwyntiau pwysig sy'n gysylltiedig â'n tystiolaeth i'r Pwyllgor Busnes ar yr adolygiad.

Ni ddylid ystyried bod cyhoeddi fersiwn o Fil cyn ei gyflwyno yn ffordd o leihau'r maint o amser sydd ar gael i Bwyllgorau gynnal gwaith craffu ar y Bil hwnnw. Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar Filiau Blwyddyn 5 wedi'i gwtogi'n anffodus, yn enwedig o'i gymharu â'r amserlenni ar gyfer Biliau yn ystod pedair blynedd gyntaf y Chweched Senedd; mae'n sylweddol llai na'r 12 wythnos a argymhellwyd gennym ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar Filiau yn ein cyflwyniad i'r adolygiad. Gall amserlenni byrrach ar gyfer gwaith craffu arwain at ddeddfwriaeth nad yw wedi'i phrofi'n llawn gan ddeddfwyr a rhanddeiliaid ac, o ganlyniad, efallai na fydd yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd neu'n gwbl effeithiol i ddinasyddion Cymru.

Ar ben hynny, ni ellir dibynnu ar fersiwn o Fil cyn ei gyflwyno ar gyfer gwneud penderfyniadau na'i defnyddio i ddechrau casglu tystiolaeth gan fod fersiynau o'r fath yn destun newid ac mae angen eu hystyried ochr yn ochr â phenderfyniad y Llywydd ar gymhwysedd deddfwriaethol, memorandwm esboniadol a datganiad o fwriad polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Barn hirsefydlog y Pwyllgor yw y dylai fod rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau drafft ar gyfer gwaith craffu ac ymgynghori arnynt cyn cyflwyno Bil. Mae gwaith craffu cyn deddfu o'r fath yn rhan werthfawr a phwysig o'r broses ddeddfwriaethol, yn enwedig oherwydd ei fod yn darparu mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth ei hun ac mewn ffordd sy'n wahanol i ymgynghori ar gynigion polisi eang sydd wedi'u nodi mewn Papur Gwyn. Felly, hoffem ei gwneud yn glir bod gwahaniaeth sylweddol rhwng ymgynghori'n ffurfiol ar Fil drafft, er enghraifft, flwyddyn cyn ei gyflwyno'n ffurfiol, a chyhoeddi fersiwn ddrafft o Fil bedair wythnos cyn ei gyflwyno sydd â llai o amser ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 oherwydd problemau amseru sydd o fewn rheolaeth y llywodraeth.

Byddem hefyd yn pwysleisio'n barchus fod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i sicrhau, wrth gynllunio ei rhaglen ddeddfwriaethol ar draws tymor y Senedd, ei bod yn cynnwys digon o amser ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a chraffu ystyrlon ar Filiau gan Bwyllgorau'r Senedd. Fel y nodwn uchod, credwn y dylai hynny olygu o leiaf 12 wythnos ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1. Fel rheol gyffredinol, ein cred yw na ddylai Biliau a gyflwynir ym mlwyddyn olaf Senedd arwain at lai o amser ar gyfer gwaith craffu i Bwyllgorau'r Senedd; serch hynny, rydym yn cydnabod y gallai fod angen rhywfaint o hyblygrwydd mewn amgylchiadau eithriadol..

Yn gywir,



Mike Hedges
Cadeirydd